TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

OCR Diploma Technegol Caergrawnt mewn Celfyddydau Perfformiadol Lefel 2

Yn gryno

Bydd y cwrs yma yn eich cyflwyno i fyd perfformio.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Oes gennych ddiddordeb mewn perfformio a gweithio yn y diwydiant celfyddydau perfformiadol

... Ydych eisiau cwrs ymarferol

... Ydych eisiau datblygu sgiliau mewn pynciau yn ymwneud â drama

Beth fyddaf yn ei wneud?

Ymhlith y cyfleusterau mae gofod theatr pwrpasol, stiwdio ddrama, stiwdio ddawns a gofod ymarfer. Mae astudiaethau'n cynnwys:

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Fel rhan o'r cwrs byddwch yn astudio:

Y busnes celfyddydau perfformiadol
Dyfeisio, sgriptio a pherfformio dramâu
Actio
Symud
Canu
Theatr gerdd

Byddwch yn cael eich asesu yn barhaus, trwy aseiniadau ymarferol yn bennaf, gyda gwaith ysgrifenedig yn ategu'r sgiliau a ddatblygir gan fyfyrwyr actio. Bydd eich gwaith yn cael ei gymedroli yn allanol. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn cyflawni:

Lefel 2 mewn Celfyddydau Perfformiadol

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i hybu eich set sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cwrs yma, bydd angen o leiaf 4 TGAU Gradd D neu uwch arnoch, gan gynnwys naill ai Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf, neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol yn y maes galwedigaethol perthnasol gan gynnwys naill ai TGAU Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.

Mae ymroddiad llwyr i bresenoldeb yn ofynnol, ynghyd â pharch at eraill, brwdfrydedd dros y pwnc, hunanysgogiad, gallu creadigol ac awydd i lwyddo. Dylai fod gennych ddiddordeb mewn drama a bod â rhywfaint o brofiad o berfformio sylfaenol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl cwblhau'n llwyddiannus ar Lefel Teilyngdod y Diploma Lefel 2, gallwch wneud cais am y Diploma Estynedig Lefel 3 Celfyddydau Perfformio neu astudiaeth Lefel 3 arall.

Gwybodaeth Ychwanegol

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Fel rhan o'r gofynion mynediad bydd disgwyl i chi fynychu a chymryd rhan mewn sesiwn flasu. Bydd clyweliad gweithdy hefyd yn rhan o'r profiad blasu hwn.